HALL, BENJAMIN (1778 - 1817), diwydiannwr

Enw: Benjamin Hall
Dyddiad geni: 1778
Dyddiad marw: 1817
Priod: Charlotte Hall (née Crawshay)
Plentyn: Benjamin Hall
Rhiant: Benjamin Hall
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: diwydiannwr
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes
Awdur: David Williams

Ganwyd 29 Medi 1778, mab hynaf Dr. Benjamin Hall, canghellor Llandaf. Cafodd ei addysg yn Christ Church, Rhydychen (B.A. 1798; M.A. 1801) a daeth yn fargyfreithiwr (Lincoln's Inn) yn 1801. Priododd, 16 Rhagfyr 1801, Charlotte, merch iau Richard Crawshay, Cyfarthfa, a'i gwnaeth yn bartner pan brynodd waith haearn Rhymni (1803); cyflwynodd iddo stad Abercarn yn 1808; cafodd Hall ei wneud yn ysgutor ewyllys ei dad-yng-nghyfraith, a'r un a oedd i gael gweddill ei stad wedi rhannu'r cymynroddion eraill. Hall oedd perchen castell Hensol, Sir Forgannwg. Bu'n aelod seneddol dros Totnes, 1806-12, Westbury 1812-4; fe'i dewiswyd dros sir Forgannwg ar 28 Tachwedd 1814 a bu'n aelod hyd ei farw cynnar ar 31 Gorffennaf 1817. Y mae'n bwysig yn hanes Cymru am mai efe ydoedd y diwydiannwr mawr cyntaf i fynd i'r maes gwleidyddol yng Nghymru yn erbyn dylanwad y gw r bonheddig tiriog.

Awdur

Yr Athro Emeritus David Williams, (1900 - 1978)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

John Lloyd, *The early history of the old South Wales Iron Works (1760 to 1840) from original documents (1906)*, 1906

W. R. Williams, 00469Parl. Hist.

The Cardiff Times, 25 Ionawr 1896

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q4888758

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/